

'Cymru a'r mudiad yn erbyn y Rhyfel Mawr'

gan Aled Eirug

Darlith Gomisiwn a draddodwyd yn ystod Estyn yn Ddistaw, dydd o fyfyrion ar farddoniaeth rhyfel a heddwch yng Nghymru. Trefnwyd gan Llenyddiaeth Cymru gyda chefnogaeth gan Raglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf Llywodraeth Cymru, Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918

Lleiafrif gymharol fechan a distadl oedd y gwrthwynebwyr ar ddechrau'r Rhyfel, ond wrth i'r gwrthwynebiad gynyddu o Ionawr 1916, yn sgil cyflwyno gorfodaeth filwrol, datblygodd de Cymru yn enwedig yn un o ardaloedd gwrth-filitaraidd mwyaf Prydain. Cafodd y gwrthwynebiad yma lais yn rhannol trwy gyfrwng papur y Blaid Lafur Annibynnol (IPL), *The Pioneer*, a gynhyrchid ym Merthyr, ac a werthai deg mil o gopïau ar gyfartaledd yn wythnosol, ac a wrthwynebodd y Rhyfel yn gyson.

Y ddau fudiad pwysicaf i wrthwynebu'r Rhyfel oedd Cymdeithas y Cymod, a'r Blaid Lafur Annibynnol (IPL). Roedd y IPL yn arbennig o ddylanwadol yn yr hen ardaloedd diwydiannol hynny lle gwreiddiwyd y blaid yn hanesyddol, gan gynnwys Merthyr ac Aberdâr, ardal Cwm Tawe, Cwm Afan, Port Talbot, a phrif drefi arfordirol de Cymru, yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe. Sail gwleidyddol y gwrthwynebiad i'r Rhyfel i eraill oedd cred y Marcswyr a'r syndicalwyr o fewn Ffederasiwn Glowyr De Cymru mai rhyfel imperialaidd er budd cyfalafiaeth oedd hi, ac mai swyddogaeth pennaf y gweithwyr oedd i ddod â'r gyfundrefn gyfalafol i ben.

Proffesai llawer o aelodau'r IPL gred wleidyddol a blethai'r moesol a'r Cristnogol gyda'i gilydd ar sail dysgeidiaeth y Bregeth ar y Mynydd, ac roedd cysylltiad agos rhwng arweinwyr y IPL a'r lleiafrif o arweinwyr crefyddol a wrthwynebodd y Rhyfel. Ymhlith arweinwyr y gwrthwynebiad oedd heddychwyr Cristnogol fel George M. Ll. Davies, un o brif drefnwyr Cymdeithas y Cymod a'r Athro Thomas Rees, Prifathro Coleg Bala-Bangor. Cafodd ef ddylanwad mawr ar genhedlaeth o fyfyrwyr diwinyddol ym Mangor a thu hwnt, bu'n un o sefydlwyr Cymdeithas y Cymod yn

Nghymru, ac yn olygydd yr unig bapur gynhyrchwyd yn benodol i wrthwynebu'r Rhyfel, sef *Y Deyrnas*.

Fel 'rhaff ag iddi amryw geinciau' y disgrifid y gwrthwynebwyr cydwybodol, gan mor amrywiol oedd sail eu gwrthwynebiad, a'u agweddau amrywiol tuag at ofynion yr awdurdodau. Safbwynt lleiafrif sylweddol o'r gwrthwynebwyr, tebyg i'r Crynwyr, Tystion Jehovah a'r Cristadelffiaid, oedd bod eu credoau crefyddol yn eu hatal rhag derbyn awdurdod y wladwriaeth, ac yn achos rhai sectau crefyddol, rhoddwyd eithriad iddyn nhw oddi ar wasanaeth milwrol. Roedd eraill o blith yr enwadau Anghydfurfiol traddodiadol, yn llawer llai tebygol o gael eu heithrio o wasanaeth milwrol oherwydd eu gwrthwynebiad cydwybodol.

Ymestynodd y gwrthwynebiad i'r Rhyfel i gynnwys yr adain chwith o fewn Ffederasiwn Glowyr De Cymru, a gynhwysai bron i chwarter miliwn o aelodau, sef y syndicalwyr, oedd yn garfan niferus a dylanwadol trwy faes glo De Cymru, ynghyd â'r aelodau o'r Blaid Lafur Annibynnol, oedd yn rhan bwysig o drefniadaeth y gwrthwynebiad i'r Rhyfel. Ond er mai cymhelliad gwleidyddol oedd i'r gwrthwynebiad yma, eto eu argyhoeddiad crefyddol oedd sail gwrthwynebiad y mwyafrif o wrthwynebwyr cydwybodol.

Crewyd y dosbarth o ddynion a adwaenid fel gwrthwynebwyr cydwybodol yn ffurfiol trwy gyfrwng y Ddeddf Gorfodaeth Milwrol a gyflwynwyd ym mis Ionawr 1916.

Nhw oedd y dynion hynny oedd wedi penderfynu eu bod yn gwrthwynebu ac yn ymwrthod â gwasanaeth milwrol. Roeddent yn grŵp cymysg o ddynion yn dod o gefndiroedd amrywiol tu hwnt. Gallai sail gwrthwynebiad ar sail cydwybod gynnwys nifer helaeth o gymhellion – ond gellir eu gosod mewn pedwar categori yn bennaf:

- Gwrthwynebiad ar sail Cristnogol ac a ystyriai na ddylid cymryd rhan yn y fyddin neu ymdrech Rhyfel
- Gwrthwynebiad ar sail moesol i ymladd a chymryd bywyd

- Gwrthwynebiad ar sail sosialaeth ryngwladol yn gwrthwynebu ymladd yn erbyn cyd-weithwyr
- Anghytundeb gyda hawl y wladwriaeth i'w gorchymyn i ymladd.

Roedd anhawster mawr gan y wladwriaeth i benderfynu sut i werthuso difrifoldeb cydwybod ac i asesu cymwyster ymgeisiadau gwrthwynebwyr i gael eu heithrio. Mae John Rae, yn y llyfr safonol ar driniaeth y Llywodraeth o'r gwrthwynebwyr, yn ystyried mai'r diffiniad gorau o wrthwynebwyr cydwybodol oedd 'y dynion hynny oedd naill ai wedi eu derbyn fel gwrthwynebwyr gan dribiwnlys, neu, os oedd wedi methu perswadio tribiwnlys o'i achos, oedd yn dal i wrthod gwasanaethu yn filwrol ar dir cydwybod.'¹

Wedi cyflwyno'r Ddeddf Gorfodaeth Milwrol, bu o leiaf 16,500 yn wrthwynebwyr cydwybodol drwy Brydain (ni chyflwynwyd gorfodaeth milwrol yn yr Iwerddon), ac o'r rheini amcangyfrifir bod oddeutu 893 o Gymru.

Cyflwyno gorfodaeth milwrol ym Ionawr 1916 oedd y cam mwyaf eithafol gellid fod wedi cymryd er mwyn delio gyda'r argyfwng milwrol a wynebai Prydain. Yn sgil y colledion difrifol o ddynion ar y Ffrynt Gorllewinol yn Ffrainc trwy gydol 1915, a methiant cyfundrefn wirfoddol Pwyllgor yr Arglwydd Derby i annog dynion i ardystio ar gyfer ymuno â'r Fyddin, penderfynodd y Llywodraeth Glymblaid gyflwyno gorfodaeth milwrol ar gyfer dynion di-briod rhwng 18 a 41 a'i ymestyn i ddynion priod hyd at 41 mlwydd oed erbyn mis Mai 1916. Codwyd yr oedran i 50 erbyn Chwefror 1918, a rhwng Ionawr 1916 a diwedd y Rhyfel, recriwtwyd oddeutu 124,000 dan orfodaeth yng Nghymru i ymuno â'r lluoedd arfog. Erbyn diwedd y Rhyfel roedd 1.35 miliwn o ddynion wedi'u gorfodi i ymuno â'r lluoedd arfog, llawer ohonynt yn anfoddog ond heb reswm digonol dros gael eu heithrio.

Roedd y Prifathro Thomas Rees, Pennaeth Coleg Bala-Bangor, coleg diwinyddol yr Annibynwyr ym Mangor, eisoes wedi ennill ei blwyf fel diwinydd ac ysgolhaig amlwg. Gwreiddid ei heddychiaeth milwriaethus yn ei argyhoeddiad dwfn bod Rhyfel yn gwbl

¹ John Rae, *Conscience and Politics: British Government and the Conscientious Objector to Military Service 1916-1919* (Llundain, Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1970), 70.

anghyson â dysgeidiaeth ac ysbryd Iesu Grist, ac ef yn ddi-os oedd y ffigwr mwyaf dylanwadol o fewn y mudiad heddwch yng Nghymru.² Ef oedd y person cyhoeddus cyntaf i fentro cyhoeddi ei wrthwynebiad i'r Rhyfel ar sail grefyddol a Christnogol.³ Ysgrifennodd lythyr at *Y Tyst* ar 30 Medi 1914 ynghanol cyfnod recriwtio mwyaf toreithiog y Rhyfel, oedd yn gwbl ddamniol o weithgarwch y crefyddwyr hynny a gefnogai'r ymgyrch Rhyfel, a'r gwleidyddion hynny a anogai ddynion ymuno â'r Fyddin. Gofynnodd i'w ddarllenwyr roi gorau i obeithio mai rhyfel i roi terfyn ar ryfel oedd hwn, ac erfyniodd ar ddarllenwyr beidio credu'r storïau ynglŷn â barbareiddiwch a chreulondeb yr Almaenwyr:

nid yw yn debyg y gall un fyddin daflu carreg at y llall yn y pen draw; ac nid teg condemnio cenedl am fod rhyw ddihirod yn colli eu dynoliaeth ar faes y frwydr.⁴

Rhybuddiodd rhag gosod 'gochl sanctaidd' ar y Rhyfel, ac yn arbennig ar y sawl – ni enwodd Lloyd George – a honnai mai rhyfel sanctaidd o blaid cenhedloedd bychain oedd hon. Cyfeiriodd at ragrith Prydain, yn gwrthod amddiffyn Lwcsembwrg ar yr un llaw, ond yn rhuthro i amddiffyn gwlad Belg ar y llaw arall:

Pa fath amddiffynwyr cenhedloedd bychain yw'r gwledydd sydd heddyw yn treisio Persia, Ffinland, yr Aifft, a Llydaw? Dyweder yn onest fod Lloegr yn ymladd am ei masnach a'i safle a'i dylanwad ymhlith cenhedloedd y byd. Ond nid yw hynny yn galw ar Eglwys Crist i droi'n 'recruiting agency' i berswadio pobl i fynd i ryfel.

Yn sgil ei lythyr, fe'i gyhuddwyd o deyrn-fracwriaeth gan bapur Anglicanaidd *Y Llan*, a chyhuddodd y *Western Mail* ef o ddiffyg teyrngarwch i Brydain wrth awgrymu nad oedd yn ddi-fai yn yr argyfwng presennol:

² *Welsh Outlook*, Ysgrif Goffa Thomas Rees, gan Miall Edwards (Gorffennaf 1926), 185.

³ *Welsh Outlook*, Ysgrif Goffa Thomas Rees, gan Miall Edwards (Gorffennaf 1926), 185.

⁴ *Y Tyst*, 30 Medi, 1914

These ridiculous perversities would not claim a moments attention but for the fact that they appear over the signature of a leader of Welsh Nonconformity and a burning and shining light among Welsh Congregationalists. If his statements are not publicly repudiated by those who can speak in the name of Welsh Nonconformity serious harm may be done to the national and patriotic movement in Wales initiated by Mr Lloyd George and Mr Asquith...The need for official action to counteract the pernicious effects of the Rev. T. Rees letter is the greater seeing that in Wales...the popular leaders are the religious leaders.⁵

Cafodd y Prifathro Thomas Rees ei eni ym mhlwyf Llanfyrnach, Sir Benfro, ardal enedigiol T.E. Nicholas, neu 'Niclas y Glais', a daeth y ddau yn gyfeillion ac yn gydymgyrchwyr yn erbyn y Rhyfel. Adwaenid Rees fel 'un o arloeswyr y blaid Lafur yng Ngogledd Cymru'⁶ a phontiai Niclas⁷ y wedd wleidyddol a chrefyddol y gwrthwynebiad i'r Rhyfel. Yn ogystal â bod yn weinidog gyda'r Annibynwyr, roedd yn bropagandydd di-flino ar ran y IPL, ac yn gyfaill agos i arweinydd cyntaf y Blaid Lafur ac Aelod Seneddol y blaid, ym Merthyr Tudful, sef Keir Hardie. Niclas oedd siaradwr Cymraeg amlycaf yr IPL, ac ef a draddododd bregeth angladdol Hardie, ac a ddewiswyd fel ymgeisydd aflwyddiannus y IPL yn etholaeth Merthyr Tudful yn Etholiad 1918. Ar gyfer cenhedlaeth ifanc Gwenallt yn y IPL, Niclas y Glais oedd un o'u prif arwyr:

Y tri oedd gennym fwyaf o barch iddynt am eu didwylledd oedd Keir Hardie, George Lansbury a Niclas y Glais. Yr oedd yn y Mudiad llafur lawer o 'weilch', gwyr a obeithiai ar lithrigrwydd eu rhethreg ragrithlyd, a phan gawsant eu cufle i gusanu llaw'r Brenin, troesant yn Doriaid a chyrraedd eu seithfed nef wrth gusanu gwefusau cyfalafol arglwyddesau Llundain.⁸

⁵ *Western Mail*, 7 Hydref, 1914.

⁶ J. Rhoose Williams, *T.E. Nicholas: Proffwyd Sosialaeth a Bardd Gwrthryfel* (Bangor, Gwasg Sackville, 1970), 2.

⁷ J. Rhoose Williams, *T.E. Nicholas: Proffwyd Sosialaeth a Bardd Gwrthryfel*,

⁸ T.E. Nicholas, *Llygad y Drws: Sonedau'r Carchar*, rhagarweiniad gan Gwenallt (Dinbych, Gwasg Gee, 1940), 11.

Niclas y Glais oedd un o sylfaenwyr cangen y IPL yn y Glais ym 1906, ac yn aelod o gangen y Blaid Lafur yn Ystalyfera ar gyfer etholaeth Gŵyr.⁹ Ym 1908, daeth yn olygydd Cymraeg papur yr ILP, *The Pioneer* a bu'n awdur toreithiog ar bamffledi, barddoniaeth ac erthyglau gwleidyddol mewn cylchgronau Cymraeg fel *Y Geninen*; sicrhodd hynny bod ei waith yn wybyddus i gynulleidfaoedd trwy Gymru gyfan. Wedi dechrau'r Rhyfel parhaodd ei weithgarwch er iddo symud o Gwm Tawe i Langybi yng Ngheredigion ym mis Ionawr 1914;¹⁰ roedd yn un o'r siaradwyr disgleiriaf a mwyaf poblogaidd mewn cyfarfodydd heddwch a chyfarfodydd gwrth-ryfel yn ystod y Rhyfel. Ar ôl cyflwyno gorfodaeth filwrol yn Ionawr 1916, daeth yn ysgrifennydd Sir Aberteifi y Brawdoliaeth Gwrthwynebu Gorfodaeth Milwrol, sef y No-Conscription Fellowship (NCF), y gymdeithas a anogai dynion ifainc i wrthod ymuno â'r fyddin ac a gefnogai'r rhai a wnaeth hynny. Cadwai'r heddlu a'r gwasanaethau diogelwch lygad barcud arno, gan ei ddilyn ac agor ei ohebiaeth yn gyson. Ceisiodd Prif Gwnstabl Sir Forgannwg ei arestio sawl gwaith, ond cafodd ei atal rhag gwneud hynny trwy bwysau oddi wrth wasanaethau cudd y Gangen Arbennig ac MI5, a oedd am osgoi creu cynnen di-angen.¹¹

'Roedd nifer o weinidogion eraill hefyd yn ddigon dewr i gyhoeddi eu gwrthwynebiad i'r Rhyfel, gan gynnwys yr athrylith dall Parch. J. Puleston Jones, gweinidog Penmount Pwllheli, yn ei erthyglau wythnosol i'r *Goleuad*, ac ef hefyd oedd yn gyfrifol am basio penderfyniad yng Nghymdeithasfa y Methodistiaid Calфинаidd yn Awst 1917 yn Nghaernarfon, yn llawenhau yn y mudiad o blaid heddwch, ac yn annog y Llywodraeth i fanteisio ar bob cyfle i gynnal trafodaethau heddwch.

Y corff a grëwyd i wrthwynebu'r Rhyfel ar sail Gristnogol oedd Cymdeithas y Cymod, a sefydlwyd ym mis Hydref 1914 yng Nghaergrawnt gyda'r amcan i 'glymu dynion a merched a'i gilydd, a gredai na ellid gorchfygu'r ysbryd cynnen, p'run ai cenedlaethol, personol ac economaidd ond trwy gred ymarferol mai Cariad, fel a ddangosir gan aberth Iesu Grist, yw'r unig sail gwirioneddol ar gyfer Cymdeithas, ac

⁹ David W. Howell, *Nicholas of Glais: The People's Champion* (Cymdeithas Hanes Clydach, 1991),12.

¹⁰ Howell, *Nicholas of Glais*, tt.13-15; Williams, T.E. *Nicholas: Proffwyd Sosialaeth a Bardd Gwrthryfel*.

¹¹ Archif Genedlaethol, Papurau'r Swyddfa Gartref, HO45/10743/263275, gohebiaeth rhwng Prif Gwnstabl Morgannwg, Capten Lionel Lindsay a'r Swyddfa Gartref.

sydd yn barod i dderbyn canlyniadau'r fath gred.¹² Ei drefnydd cyntaf oedd y Parch. Richard Roberts, yn wreiddiol o Flaenau Ffestiniog, a fu'n gweinidogaethu yng nghapel Presbyteriaid Saesneg Crouch Hill yn Llundain, ond a siomwyd gan anghymeradwyaeth ei gynulleidfa at ei heddychiaeth. Dechreuodd olygu cylchgrawn y Gymdeithas, *The Venturer*, gan sefydlu cylchrediad o dair mil o gopiau y mis, ac ymunodd George M. Ll. Davies ag ef ym mis Medi 1915, gan ddod yn ysgrifennydd cynorthwyol, di-dâl (ar wahân i dreuliau o ddeg swllt y mis), ac yn olygydd *The Venturer*. Bu'n rheolwr banc yn Wrecsam ac, yn ddigon eironig, yn is-gapten yn y Tiriogaethwyr am gyfnod, cyn ymddiswyddo am yr ystyriai ei fod yn groes i ysbryd Crist. Trwy ddylanwad David Davies, Llandinam, daeth yn ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Ganolog ddyngarol newydd, sef y Welsh Town and Planning and Housing Trust yng Nghaerdydd, a chafodd hefyd gynnig golygyddiaeth y *Welsh Outlook*, ond gwrthododd, gan benderfynu ymuno â Chymdeithas y Cymod.

Yng Nghymru mabwysiadodd Cymdeithas y Cymod gymeriad unigryw a gweithgar a datblygwyd y mudiad gan unigolion allweddol oedd yn bennaf yn weinidogion Anghydfurfiol Cymraeg, ac yn byw yng ngogledd a gorllewin Cymru. Mae'n drawiadol fod gweithgarwch trwy gyfrwng y Saesneg gan Gymdeithas y Cymod yng Nghymru yn gymharol fach ac yn gyfyngedig dros ben.

Sefydlwyd y gangen gyntaf o'r Gymdeithas yng Nghymru ym Mangor ym mis Mehefin 1915.¹³ Anerchwyd y cyfarfod sefydlu ym Mangor yn Eglwys y Tabernacl gan y gweinidog lleol, y Parch. Hywel Harris Hughes. Richard Roberts o Lundain, a'r Prifathro Thomas Rees. Cynhwysodd y gynulleidfa ddegau o fyfyrwyr o golegau diwinyddol a phrifysgol y dref, a daeth nifer ohonynt yn wrthwynebwyr cydwybodol ym 1916. Mewn cyfarfod pellach, penderfynwyd trefnu rhanbarth o Gymdeithas y Cymod, gyda changhennau ym Mangor/Bethesda, Caernarfon/Penygroes, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli.¹⁴

¹² Gwynfor Evans, *Pererin Heddwch* (Cymdeithas y Cymod yng Nghymru), 1980.

¹³ Aled Eirug, 'Agweddau ar y Gwrthwynebiad i'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru', *Llafur*, 62, Cyfrol 4, Rhif 4, 1987

¹⁴ Rees, *Dal i Herio'r Byd* (Lerpwl, Cyhoeddiadau Modern Cymreig, 1983), 116.

Crewyd yr ail ranbarth yng nghylch Wrecsam ar yr ail o Fehefin 1915, pan gynhaliwyd cyfarfodydd o blaid heddwch yn ardaloedd Ponciau a Rhosllannerchrugog, ac anerchwyd gan G. M. Ll. Davies, y Parch. Herbert Dunnico, ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch, y Parch. D. Wyre Lewis a'r Parch E. K. Jones, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghefnmawr ger Wrecsam.

Yn ne Cymru, ymunodd Cymdeithas y Cymod â'r gynghrair o gyrff oedd yn weithgar yn erbyn y Rhyfel, gan gynnwys y IPL, y No-Conscription Fellowship (NCF), yr Union of Democratic Control (UDC) a chyfrinfeydd glofeydd o fewn Ffederasiwn Glowyr De Cymru. Canolfan y gwrthwynebiad oedd Merthyr Tudful, lle crëwyd 'Cyngor Heddwch Merthyr Er Atal y Rhyfel', a denwyd torfeydd o dros dair mil i'w cyfarfodydd cyhoeddus,¹⁵ ond prin iawn oedd y nifer o ganghennau mewn rhannau eraill o Gymru. Erbyn Ionawr 1918, dim ond un ar ddeg o ganghennau oedd wedi'u sefydlu ac yn ne Cymru fe'u dosbarthwyd yng Nghaerdydd (ynghyd â changen myfyrwr), Abertawe, Merthyr Tudful, Nelson yng Nghwm Rhymni, ac Aberystwyth.¹⁶ Ym mis Tachwedd 1918, sefydlwyd cangen o Gymdeithas y Cymod yn Nhrawsfynydd, gyda hanner cant o aelodau, oedd wedi'u cythruddo gan y camdriniaeth a roddwyd i wrthwynebwyr cydwybodol,¹⁷ ond eithriad oedd hyn, a chyfeiriwyd egni yr aelodau mwyaf gweithgar i gydweithredu gyda mudiadau fel y IPL neu trwy'r enwadau.

Y cylchgrawn *Y Deyrnas*, dan arweiniad y Prifathro Thomas Rees, oedd cyfraniad mwyaf nodedig Cymru i'r mudiad yn erbyn y Rhyfel Mawr ar sail Cristnogol, a gyda chylchrediad o dair mil o gopiau yn ei hanterth, roedd yn erfyn pwysig a ledaenai neges beryglus yn erbyn y Rhyfel ar draws Cymru. Sefydlwyd y cylchgrawn ym mis Hydref 1916, 'am y teimlai cwmni bychan nad oedd llais na lle yn y Wasg Gymreig i'w olygiad ar Egwyddorion Efengyl Crist a'u cymhwysiad at amgylchiadau anghyffredin y cyfnod.¹⁸ Am gyfnod o dair mlynedd gwerthodd *Y Deyrnas* gyfartaledd o 2,750 o gopiau yn fisol trwy Gymru gyfan a denodd rhai awduron ifanc mwyaf nodedig yr oes

¹⁵ *Pioneer*, 22 Ebrill 1916.

¹⁶ *The News Sheet of the FoR* (Cymdeithas y Cymod, 1918).

¹⁷ Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Papurau E.K. Jones, Blwch 6, llythyrau oddi wrth Owen Owen, Trawsfynydd at Jones, 8 Chwefror 1918, 4 Tachwedd 1918, 22 Rhagfyr 1918.

¹⁸ *Y Deyrnas*, Tachwedd 1919.

i gyfrannu, gan gynnwys T. Gwynn Jones, T. H. Parry-Williams, David Thomas, Tegla Davies a T. E. Nicholas. Fe'i sefydlwyd yn dilyn cyfarfod yn y Bermo ym mis Mawrth 1916, wrth i'r gwrthwynebwyr cydwybodol cyntaf gael eu carcharu. Ymhlith y sylfaenwyr oedd T. Gwynn Jones, T. H. Parry-Williams, y Parch. John Morgan Jones Merthyr, y Parch. John Morgan Jones, Bangor, y Parch. Tegla Davies, a'r Parch. J. Puleston Jones, Pwllheli. Yno hefyd oedd yr awdur disglair Eluned Morgan, Patagonia, a phedwar o fyfyrwyr Coleg Bala-Bangor. Thomas Rees oedd wrth galon y fenter, fel y prif olygydd, ac yn ysbrydolwr i fintai o fyfyrwyr a gweinidogion ifanc, a sicraodd gyfraniadau gan awduron disglair megis David Thomas, T. E. Nicholas a Wil Ifan.

Y papur yma oedd cyfraniad mwyaf unigryw Cymru i'r ymgyrch gwrth-ryfel ar sail Cristnogol, a gyda chylchrediad o dair mil o gopiau yn ei hanterth, 'roedd *Y Deyrnas* yn erfyn pwysig a ledaenai neges beryglus yn erbyn y Rhyfel. Mae'n drawiadol fod y cylchgrawn Cymraeg yma yn ennyn a gymaint o ddarllenwyr a *The Venturer*, cylchgrawn Saesneg a gylchredai trwy Brydain. Yn ei rhifyn cyntaf, gosododd Thomas Rees genhadaeth heddychiaeth Gymreig yn glir gan resynu na fu Cristnogaeth Ewrop yn:

wrthglawdd digonol yn erbyn y rhyferthwy dinistriol. Ond o ystyried, gwelwn mai un yn unig o effeithiau ysbryd Anghrist yw y gyflafan hon; i'r un achos y rhaid olrhain drygau cymdeithasol, cenedlaethol a rhyng-genedlaethol ein hoes. Yn wyneb hyn oll, rhaid fod rhywbeth i'w dystiolaethu yn enw Teyrnas Dduw.¹⁹

Y mudiad gwleidyddol a wrthwynebai'r Rhyfel fwyaf oedd y Blaid Lafur Annibynnol (yr ILP). Sail gwrthwynebiad aelodau o'r ILP i'r Rhyfel oedd cymysgedd o wrthwynebiad ar dir moesol ac ar dir gwleidyddol. Ystyrid y Bregeth ar y Mynydd yn unol â'u cred mewn brawdgarwch sosialaidd. Mae Rae yn crynhoi y gwrthwynebiad yma fel 'fusion of the political and the moral: socialist opposition to militarism, to restrictions on personal freedom, to undemocratic diplomacy, and to the capitalists interests

¹⁹ *Y Deyrnas*, Hydref 1916.

invested in the war, was expressed within the context of a moral concern for the sanctity of human life.²⁰

Roedd Percy Ogwen Jones wedi ei fagu yn Llaneilian yn Ynys Môn, ac yn disgrifio ei gyfeillion fel rhai oedd yn erbyn Rhyfel:

"ond heb fod yn bendant iawn. Dim ond dau neu dri ohonom oedd yn gryf ein daliadau. Roeddwn i yn un o'r rheini, a hynny am amryw resymau. Un rheswm oedd y crefyddol wrth gwrs. Ond rheswm arall oedd fod Rhyfel yn fy ngolwg i yn ddrwg ynddi ei hun – ac mai gormod o arfogi, yn rhannol gan rai oedd am elwa ar ryfel, oedd wedi arwain iddi. O'r cychwyn cyntaf, felly, roedd fy ngwrthwynebiad i yn fwy ar dir moesol a gwleidyddol nag ar dir crefyddol. Roedd y cyfan i gyd yn ffurfio agwedd neu safbwynt gwrth-filwrol digon pendant."²¹

Adlewyrchwyd safbwynt Farcsaidd gan Arthur Horner, un o arweinwyr ifanc carismataidd Ffederasiwn y Glowyr; "I saw in the coal owners and the Government that supported them a nearer enemy than the Kaiser."²²

Y Blaid Lafur Annibynnol oedd y corff mwyaf dylanwadol o fewn y Blaid Lafur ar y pryd o ran a than 1918, yn cynrychioli yr unig ffordd gallai aelod unigol ymaelodi a'r blaid. Er i'r Blaid Lafur rannu ar fater y Rhyfel ym mis Awst 1914, cynhaliodd yr ILP ei gwrthwynebiad i'r Rhyfel yn gyson ar y cyfan, er i hyd yn oed Hardie a Macdonald wanio ychydig yn wyneb ymateb chwyrn eu gwrthwynebwyr.

Yn y de roedd yr ILP gryfaf, ac yng nghadarnleoedd y blaid honno bu'r gwrthwynebiad i'r Rhyfel ar ei mwyaf amlwg a thanbaid, a hynny yng nghymoedd Aman a Tawe, ardal Cwmafon, Llansawel a Phort Talbot, yn ogystal a Merthyr, Aberdâr, Cwm Rhymni, a chymoedd gorllewinol Sir Fynwy. Bu ganddi ganghennau llewyrchus yn

²⁰ John Rae, 'Conscience and Politics', Gwasg Prifysgol Rhydychen, 1970, t.82-83

²¹ Ysgrif gan Percy Ogwen Jones yn nwylo ei fab, Geraint Percy Jones

²² Horner, Arthur, 'Incorrigible Rebel', Gwasg ?t.9,1960

ardal chwarelyddol Sir Feirionnydd a Sir Gaernarfon ar ddechrau'r Rhyfel, cyn i gynydd economaidd gau chwareli a gwasgaru'r gweithwyr o 1915 ymlaen.²³

Natur y gwrthwynebwyr cydwybodol

Mae Percy Ogwen Jones yn disgrifio'r gwrthwynebwyr fel 'ceinciau cymysg' – "Nid yr un cymhellion ac achosion sy'n peri bod rhai yn yr un mudiad, ac nid yr un amcanion bob amser sydd ganddynt mewn golwg. Fe ellir dweud bod mudiad yn ddigon tebyg i raff; y mae mwy nag un edefyn ynddi, ac ni raid i bob edefyn fod yn union yr un fath.

O'r 893 o wrthwynebwyr, roedd 85 yn wrthwynebwyr absoliwtaidd, ac o'u plith, bu 31 unwaith ger bron llys milwrol; 32 ddwywaith; 15 tair gwaith; 5 pedair gwaith; 2 pump gwaith.

Y ddau a garcharwyd 5 gwaith oedd Ithel Davies ac Emrys Hughes, y ddau yn sosialwyr ond yn dod o gefndiroedd gwahanol iawn, gyda Davies o Mallwyd yn fab fferm ac yn bugeilio rhai gannoedd o ddefaid, ac Hughes yn athro dan hyfforddiant ac yn weithgar yn yr ILP yn y de.

Ymhlith y gweddill, roedd llenorion a newyddiadurwyr megis Gwenallt, T. H. Parry-Williams, Percy Ogwen Jones a David Thomas, ac o'r byd gwleidyddol, roedd sawl un a ddaeth yn Aelodau Seneddol, gan gynnwys Ness Edwards, Emrys Hughes, Morgan Jones, Thomas William Jones (wedyn Arglwydd Maelor), George M. Ll. Davies, ac arweinwyr y mudiad llafur, fel Arthur Horner a Mark Starr.

Cynllun y Swyddfa Gartref

Yn wyneb y llif o wrthwynebwyr cydwybodol oedd wedi eu carcharu erbyn canol haf 1916, ymateb y Llywodraeth trwy enau Lloyd George, y Gweinidog Rhyfel, oedd i beidio rhoi modfedd i'r gwrthwynebwyr ar sail absoliwt, ond i roi cyfle i wrthwynebwyr weithio mewn gwrsylloedd arbennig dan ofal y Swyddfa Gartref.

²³ Cyril Parry, 'Y Blaid Lafur..', Cylchgrawn Hanes Cymru, 19 ?

Dartmoor

Disgrifiodd George M. Ll. Davies gymysgedd ac amrywiaeth y gwrthwynebwyr cydwybodol yn un o'r canolfannau hyn yng ngharchar Dartmoor;

'Y mae yma yn y carchar tua 600 ohonom wedi ein barnu yn wrthwynebwyr cydwybodol i'r Rhyfel. Er Corinth ni bu erioed gymaint o gymysgedd credoau ac opiniyniau – Eglwyswyr, Pabyddion, Presbyteriaid, Methodistiaid, Christadelffiaid, 'Plymouth Brethren', Marxian Socialist, Anarchists, Gwyddelod, Saeson, Scotiaid, Cymry, Iddewon, Rwsiaid, arlunwyr – yn byw, bwyta ac yn bod tu fewn i furiau uchel ty'r caethiwed. Ar ddrws un gell gwelir y Rhybudd, 'Gwaed. Pa fodd y dihangoch.'

Yng nghell y Pabydd y mae croes a chanwylau, mewn ystafell o'r neilldu y mae'r Crynwyr yn cyfarfod mewn distawrwydd a brawdoliaeth addoliad sydd yn agored i bawb. Mewn man arall y mae'r Plymouth Brothers yn canu'n uchel am gariad Crist, ond yn gwrthod caniatad i Gristion o enwad arall uno a'r gwasanaeth. Y mae'r Sosialwyr wedi rannu'n gyffelyb: un ysgol a blediant y Rhyfel Dosbarth – Gweithiwr yn erbyn Meistr – yn gwawdio a chondemnio Sosialwyr yr ILP y rhai a gredent nad yw ennill y feistrolaeth ar gyfalaf yn Alpha ac Omega pob ymgais llafurawl. Y mae yr Anneddfwr (Anarchist) yn ysgwyd ei ben arnynt ill eu dau ac yn gofyn paham y talent y fath wrogaeth i lywodraeth a cheisio ennill a defnyddio ei awdurdod, hyn lle argyhoeddi y werin mai mewn Llywodraethau – a'r gallu a roddir iddynt ormesu gwerin gan y werin – y mae'r drwg gwreiddiol yn dechreu.'

Crewyd canolfannau eraill, *centres* gan gynnwys nifer yng Nghymru, yn Llanddeusant, Llangadog, Llannon ger Llanelli, Penderyn lle adeiladwyd argau, Talgarth lle roddwyd gwaith i adeiladu sanatorium.

Beth oedd arwyddocad safiad y gwrthwynebwyr cydwybodol?

I lawer wrth gwrs, bradwyr a cachgwn oeddent na haeddai barch na chydabyddiaeth.

Dehongliad arall ohonynt – gan yr Aelod Seneddol, Llewellyn Williams, er enghraifft oedd eu bod yn ferthyron, dan erledigaeth yn dioddef sen a dirmyg – yn cael eu cymharu i John Penri neu'r Crynwyr cynnar.

Disgrifiodd E. K. Jones y tair mlynedd o erledigaeth fel pennod euraidd; 'y cyfarfodydd gweddi mewn cell cloedig; y sgwrs ysbrydol, yr adnodau wedi ei sgwennu ar wal o dur; tristwch dros y milwr ardderchog a aberthwyd yn ofer; ymddygiad addfwyn ein dynion yn y Court Martial; dewrder yn wyneb salwch, a pan bo rheswm yn methu, parodrwydd llon i farw am y ffydd'. Cafodd gwrthwynebwyr hi'n anodd i gael swyddi ar ddiwedd y Rhyfel.

Effaith y profiad yma oedd bod rheolau ynglŷn â gwrthwynebwyr cydwybodol gymaint a hynny yn fwy rhyddfrydig erbyn yr Ail Rhyfel Byd. Newidiwyd y system ricriwtio mor gynnar a Awst 1917, gan drosglwyddo ricriwtio o'r Swyddfa Rhyfel i Weinyddiaeth Gwasanaeth Cenedlaethol gan sefydlu yr egwyddor o ofal am ricriwtio yn gorwedd gyda'r Llywodraeth Sifil yn hytrach na'r Fyddin. Erbyn yr Ail Rhyfel Byd, crewyd tribiwnlysoedd mwy proffesiynol wedi eu llenwi gan ddynion gydag hyfforddiant cyfreithiol. Penderfynwyd hefyd bod mwy nag un sail dros cael eich eithrio o wasanaeth. Derbyniwyd egwyddor bod gwahaniaethau mewn gwrthwynebiad rhwng yr absoliwt; y sawl oedd am wrthwynebu ond yn barod i wneud gwaith o bwysigrwydd cenedlaethol cyn belled nad oedd yn ymwneud â gwasanaeth milwrol; a chategori arall llai eithafol, lle bod parodrwydd i wneud gwaith yn y lluoedd milwrol, cyn belled bod y gwaith wedi ei gyfyngu i wasanaeth na fyddai'n cynnwys cario arfau.

Aled Eirug, Chwefror 2019